COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN HYBRID SIAMBR CYNGORO BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2023, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | P Davies |
| M J Evans | N Farr | P Ford | J Gebbie |
| W R Goode | RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | RM James |
| P W Jenkins | M R John | MJ Kearn | W J Kendall |
| M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | J E Pratt |
| E Richards | R J Smith | JC Spanswick | I M Spiller |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | G Walter | A Wathan |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | I Williams |
| MJ Williams | R Williams | E D Winstanley | T Wood |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C L C Davies

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

77. DATGANIADAU O FUDDIANT

Gwnaed y Datganiadau canlynol o Fuddiant:

Y Cynghorydd JP Blundell – Buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 ar yr Agenda fel Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gyfun Bryntirion a grybwyllir yn yr adroddiad.

Y Cynghorydd S Bletsoe – Buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd F Bletsoe – Buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd JC Spanswich – Buddiant sy’n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod aelod agos o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd M Kearn – Buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 7 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Cymuned y Pîl sy'n ymwneud â rheoli prosiect y cyfeirir ato yn Atodiad B (tudalen 36) yr adroddiad.

Y Cynghorydd P Jenkins – Buddiant personol yn eitem 9 ar yr Agenda fel perchennog tŷ sy'n ffinio â'r tir dan sylw y cyfeirir ato yn y Cytundeb Benthyciad.

Y Cynghorydd P Davies – Buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd RM James – Buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda gan fod aelod o'r teulu yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd T Wood – Buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda gan ei fod yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Y Cynghorydd Amanda Williams – Buddiant personol yn eitem 7 ar yr Agenda fel Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety.

Y Cynghorydd E Winstanley – Buddiant personol yn eitem 7 ar yr Agenda gan fod ei chyflogwr yn derbyn rheolaeth ar arian ar gyfer prosiectau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Y Cynghorydd R Penhale-Thomas – Buddiant personol yn eitem 6 ar yr Agenda fel gweithiwr i sefydliad y mae V2c yn aelod ohono.

Gadawodd yr holl aelodau hynny a ddatganodd fuddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitemau uchod y cyfeiriwyd atynt, y cyfarfod tra roedd yr eitemau hyn yn cael eu hystyried.

78. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

79. CYFLWYNIAD I'R CYNGOR GAN GYNRYCHIOLWYR CYMOEDD I'R ARFORDIR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a oedd yn cyflwyno cynrychiolwyr o Cymoedd i'r Arfordir, h.y. Jo Oak, Prif Weithredwr a Darrin Davies, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Datblygu a Thwf, a roddodd gyflwyniad ar waith diweddaraf y sefydliad.

Amlinellodd y cyflwyniad agenda V2C i ddechrau, sef

- Eu sefyllfa bresennol
- Eu blaenoriaethau cyntaf
- Eu heffaith a'u huchelgais
- Eglurhad ynghylch cartrefi gwag
- Cyfleoedd ar gyfer cwestiynau

O ran y sefyllfa bresennol, eglurodd y Swyddogion fod V2C wedi derbyn y lefel uchaf o gydymffurfiaeth o ran eu llywodraethu a'u hyfywedd ariannol yn dilyn adolygiad rheoleiddio diweddar.

Roedd lefelau rhent wedi'u gosod ar gynnydd o 6.5% ar gyfartaledd (yn unol â chymdeithasau tai eraill yng Nghymru ac ar gyfartaledd £20 yn is na'r cap rhent), gyda rhent wedi'i rewi a chymorth ychwanegol i'r rhai mwyaf agored i niwed.

Roedd gwaith partneriaeth parhaus yn cael ei ddatblygu i gefnogi eu cwsmeriaid yn well, gan gynnwys y rhaglen Tai, Iechyd ac Arloesi ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.

Roedd gwaith hefyd wedi'i wneud o ran cefnogi Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr drwy annog cydweithwyr yn ôl i'r swyddfa ac ailgyflwyno derbynfa'r sefydliad.

O ran blaenoriaethau mwy uniongyrchol y sefydliad, amlinellwyd y rhain fel a ganlyn:-

1. Mynd i'r afael â lleithder, anwedd a llwydni - gweithio ar y cyd â Chymdeithasau Tai ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru ac ymateb i'r Gweinidog Tai
2. Atal a mynd i'r afael â digartrefedd - mwy o gymorth i gwsmeriaid drwy’r argyfwng costau byw; gweithio mewn partneriaeth â CBSPAO ac eraill; buddsoddi mewn cartrefi newydd i ateb y galw
3. Mynd i’r afael â thanfuddsoddiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr drwy ein hagenda ‘Darn Coll’, fel y gallwn wneud mwy dros ein cwsmeriaid a’n cymunedau.

Dywedodd Prif Weithredwr V2C, o ran effeithiau ac uchelgeisiau'r sefydliad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mai'r rhain i rannu gyda'r aelodau oedd bod ei Raglen Trawsnewid wedi cael effaith gadarnhaol ar draws y busnes, ac ar gyfer cwsmeriaid, bod ôl-groniad atgyweiriadau yn gostwng yn ogystal â chwynion hefyd yn gostwng a datrysiadau cadarnhaol yn digwydd yn gyflymach i denantiaid eiddo.

Roedd y datrblygiadau uchod i gyd yn cael eu gyrru ymlaen gyda chynlluniau i greu is-gwmni sy'n eiddo llwyr i wella a thyfu eu gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw ymhellach.

Roedd V2C hefyd wedi lansio ei strategaeth Dyfodol Cynaliadwy Diogel a Hapus i weithio tuag at niwtraliaeth carbon.

Ymhellach, roedd £1.2m wedi'i sicrhau i fuddsoddi mewn rhaglen ôl-ffitio optimaidd. Byddai hyn yn dechrau gyda gwell systemau gwresogi i tua 200 o gartrefi; inswleiddio waliau allanol i tua 200 o gartrefi; a goleuadau ynni effeithlon i ardaloedd cymunedol yn ei gynlluniau tai gwarchod.

Mewn perthynas ag eglurhad ynghylch Tai Gwag, eglurodd y Swyddogion nad Cymoedd i'r Arfordir yw'r unig LCC ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bod hyn ar adegau wedi arwain at rywfaint o gamddealltwriaeth yn lleol ynghylch maint perchnogaeth rhai cartrefi gwag.

Roedd rhywfaint o gamsyniad hefyd ynghylch nifer y cartrefi yr oedd V2C yn berchen arnynt mewn perthynas ag eiddo a gollwyd drwy'r Cynllun Hawl i Brynu.

O ran eiddo gweigion, eglurodd y Swyddogion fod 138 o gartrefi gwag (gweigion) yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd, gyda 63 yn destun gwaith adeiladu ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer ailosod. O ran 23 o'r eiddo hyn, roedd y gwaith yno wedi'i gwblhau ac roeddent yn awr yn barod i'w gosod. Roedd y gwaith ar 10 eiddo wedi'i roi i gontractwyr gyda'r gwaith perthnasol yn yr arfaeth. Roedd 6 eiddo yn aros am adroddiadau asbestos a/neu gynlluniau cegin, gyda 3 o'r rhain yn aros i gael eu clirio. Roedd 23 eiddo yn aros i gael eu harchwilio (gan gynnwys y rhai lle'r oedd archwiliadau o'r fath eisoes wedi'u trefnu).

Dywedodd y Swyddogion V2C hefyd, y gall cartrefi fod yn wag am nifer o resymau, er enghraifft, gwaith sy'n mynd rhagddo; addasiadau penodol yn yr arfaeth; trefniadau ar gyfer gwaith mawr; yn aros am brofion cydymffurfio neu adroddiadau diogelwch; yn aros am gyfleustodau; yn aros i gael eu clirio neu'r rhai sydd wedi'u lleoli mewn ardal anodd ei gosod.

I gloi, cadarnhawyd ers dechrau blwyddyn ariannol 2022-23, fod V2C wedi dod â 289 o gartrefi gwag yn ôl i ddefnydd, gan gynnwys 16 o dai gweigion ‘gwerth uchel’.

Wrth i hyn gloi'r cyflwyniad, gofynnodd y Maer i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i’r Swyddogion.

Nododd Aelod mai’r llwyddiant mwyaf yr oedd wedi’i nodi ers iddo ddod yn Gynghorydd Bwrdeistref Sirol fis Mai diwethaf oedd y gwaith clirio y mae mawr ei angen yn Ystâd Wildmill, drwy gydweithio rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr a V2C. Fodd bynnag, fel rhan o gynigion cyllideb ddrafft y Cyngor, roedd awgrym i leihau maint tîm Gorfodi CBSPAO. Gofynnodd felly sut y byddai hyn yn effeithio ar waith fel hwn yn y dyfodol yn yr ardal hon ac ardaloedd ehangach Pen-y-bont ar Ogwr.

Dywedodd y Prif Weithredwr, V2C fod yna atebolrwydd rhwng partneriaid y sefydliad i sicrhau y byddai canlyniadau cadarnhaol pan fyddai gwaith o'r natur hwn yn cael ei amserlennu ac yn cael ei wneud wedyn. Mae disgwyliadau wedi’u gosod o ran clirio sbwriel fel tipio anghyfreithlon a gwella’r ardaloedd gwyrdd o fewn Wildmill ac roedd hi’n siŵr, er gwaethaf unrhyw leihad yn y gweithlu, y byddai gwaith fel hwn yn parhau i gael ei wneud yn y dyfodol er mwyn adeiladu ar y camau cadarnhaol iawn sydd wedi’u cymryd mewn ardaloedd â phroblemau megis Wildmill, yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod pa bwerau oedd gan V2C o ran tenantiaid yn dangos ymddygiad gwrthgymdeithasol ac felly'n achosi cynnwrf a phroblemau i drigolion cyfagos, h.y. ymddygiad nad yw'n droseddol.

Dywedodd Prif Weithredwr V2C y byddai V2C yn ymchwilio i broblemau fel hyn naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda phartneriaid fel tîm MASH neu Heddlu De Cymru. Gallai V2C gynnal achos cyfreithiol yn erbyn cyflawnwyr o'r fath a allai arwain at denantiaid wedyn yn wynebu cael eu troi allan, fodd bynnag, gallai hyn olygu bod y broblem yn cael ei symud o un gymuned i'r llall lle symudodd y tenant iddi. Neu gallai'r tenant ddod yn ddigartref a fyddai'n gwaethygu'r broblem benodol honno a oedd ar gynnydd. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion byddai V2C ac asiantaethau allweddol eraill yn y lle cyntaf yn ceisio datrys problemau gyda'r tenant a cheisio mynd i'r afael â'u problemau ymddygiad er mwyn datrys materion, heb fod angen cymryd camau pellach.

Dywedodd Aelod a oedd yn gynrychiolydd ar Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr ei bod wedi ymweld ag eiddo V2C yn ddiweddar lle’r oedd tenant agored i niwed, nad oedd wedi cael cawod ers nifer o wythnosau. Gofynnodd pa mor aml yr oedd staff V2C yn archwilio eiddo i sicrhau bod tenantiaid fel hyn yn cael eu hadnabod er mwyn canfod a oedd angen cymorth pellach arnynt ai peidio. Gofynnodd hefyd a oedd angen i denantiaid symud allan o'u heiddo ac i mewn i un arall, os oedd angen gwneud gwaith ar yr annedd.

Cadarnhaodd Prif Weithredwr V2C fod staff V2C yn archwilio eiddo yn flynyddol fel rhan o raglen archwilio flynyddol, i gynnal gwiriadau diogelwch eiddo. Cafwyd arolygiadau mwy rheolaidd yn ystod y pandemig, ond wrth gwrs, roedd Covid bellach wedi cilio. Roedd yna hefyd ymgyrch ‘Eyes On’, lle bu cynrychiolwyr V2C yn rhyngweithio â thenantiaid ar faterion diogelu ac atgyweirio eiddo ac yn adrodd yn ôl ar y rhain, er mwyn cymryd camau priodol. Roedd yna hefyd broses atgyfeirio, gan weithio gyda phartneriaid fel CBSPAO, lle cafodd problemau gyda thenantiaid, atgyweiriadau, sbwriel a llu o faterion eraill eu hadrodd a'u rhestru i weithredu arnynt.

O ran tenantiaid yn gorfod symud allan o'u heiddo pan oedd atgyweiriadau'n cael eu gwneud iddo, roedd hyn i gyd yn dibynnu ar faint yr oedd angen ei wneud. Ystyriwyd hyn mewn perthynas â maint y gwaith ac unrhyw elfennau diogelwch oedd angen eu

hystyried. Trafodwyd y rhain gyda'r cwsmer. Ar adegau, yn hytrach na symud tenant i eiddo arall at y diben hwn, gallent gael eu hail-leoli i westy neu dŷ llety am gyfnod byr.

Nododd Aelod y bu achosion o ôl-groniad atgyweiriadau ar gyfer eiddo tenantiaid V2C, a oedd yn aml yn arwain at 'dagfa' yn datblygu, a oedd wedyn yn gohirio datrys atgyweiriadau o'r fath. Roedd wedi cael yr adborth hwn gan rai etholwyr, ond ar adegau pan wnaeth atgyfeiriad uniongyrchol i V2C ar yr un materion, roedd bob amser wedi canfod bod y sefydliad yn gweithredu ar y broblem yn gyflym. Gofynnodd a oedd hyn yn wir ac os felly, beth oedd yn cael ei wneud i unioni oedi o'r fath.

Cydnabu'r Prif Weithredwr, V2C fod cwynion gan denantiaid yn y maes hwn wedi bod yn broblem o'r blaen, er bod gwaith pellach wedi'i ymrwymo i'r maes gwaith hwn a bod y sefyllfa wedi gwella. Ychwanegodd y byddai'n well ganddi pe bai tenantiaid yn cysylltu â'r sefydliad yn uniongyrchol, yn hytrach na thrwy unrhyw bartner, gan fod torri'r rhain allan yn aml yn cyflymu'r ymateb lle byddai camau'n cael eu cymryd yn gyflymach wedyn. Yn aml, pe bai cwynion yn cael eu gwneud a heb fod yn cael eu gweithredu'n ddigon cyflym ym marn y tenantiaid, byddent wedyn yn ceisio dwyn achos cyfreithiol yn erbyn V2C a allai fynd yn faith a gallai hynny ymestyn y broblem hyd yn oed yn hirach ac y gellid ei osgoi yn aml trwy ddeialog rhwng y tenant a'r gymdeithas dai. Cynghorodd yr Aelod i gael trafodaeth bellach ar hyn, y tu allan i'r cyfarfod.

Am drafodaeth bellach a gafwyd ar y pwnc hwn, dylid cyfeirio yma at ddolen y cyfarfod

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Nodi adroddiad y Prif Weithredwr a'r cyflwyniad gan gydweithwyr Cymoedd i'r Arfordir. |

80. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Hoffwn ddiolch i berchnogion Caffi'r Betws a aeth y tu hwnt i'r disgwyl ar Noswyl Nadolig, gan ddosbarthu ciniawau Nadolig am ddim i elusennau digartref a phobl sy'n byw ar eu pen eu hunain yn ardal Betws.

Yn y cyfnod cyn y Flwyddyn Newydd, mynychodd yr Arweinydd a minnau briodas Ian ac Alison (Mr a Mrs Thomas erbyn hyn) yn Swyddfa Gofrestru Pen-y-bont ar Ogwr. Diolch i'r pâr priod am ganiatáu i ni fod yno am ran o'u diwrnod arbennig.

A gaf i atgoffa aelodau am Elusen y Maer eleni, er mwyn iddynt allu gwneud cyfraniad os ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny.

Byddaf yn cyfarfod â Swyddogion yr wythnos hon, i ystyried enwebiadau Gwobr y Maer.

Ac yn olaf, er gwybodaeth i'r Aelodau, mae dyddiad cyfarfod Cabinet y Gyllideb wedi'i newid o 21 Chwefror 2023 (2.30pm) i 22 Chwefror ar yr un amser cychwyn.

Dirprwy Arweinydd

Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, bydd aelodau wedi nodi'r pwysau eithafol sydd wedi bod ar y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ddealladwy, mae llawer o ffocws y cyfryngau wedi bod ar y sefyllfa weladwy iawn, ac weithiau dirdynnol, y mae ysbytai wedi'u cael eu hunain ynddi.

Gan ein bod hefyd wedi gweld y pwysau eithafol hyn o fewn y gymuned, rwyf am gydnabod a thalu teyrnged i'n gweithlu gofal cymdeithasol oherwydd hyd nes y byddwn

yn datrys y mater hwn o gapasiti o fewn ein cymunedau a gwerthfawrogi'r staff sy'n darparu'r gwasanaethau cymunedol hynny, ni fyddwn yn datrys y pwysau o fewn ein hysbytai ac osgoi ambiwlansys yn aros y tu allan i drosglwyddo eu cleifion.

Maent wedi bod yn gweithio'n ddiflino nid yn unig i gefnogi pobl sydd wedi'u rhyddhau o ofal ysbyty, ond i roi canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar waith mewn ffordd sy'n cynnal gwerthoedd gofal cymdeithasol ac sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelwch a lles parhaus pobl agored i niwed.

Rydym wedi gweithio'n agos iawn gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac yn parhau i ganolbwyntio nid yn unig ar yr ymateb uniongyrchol, ond hefyd ar weithredu camau strategol a fydd yn galluogi mwy o bobl i gael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt mewn ffordd briodol ac amserol.

Er mwyn rhoi enghraifft i aelodau o sut yr ydym yn gwneud pethau'n wahanol, hoffwn dynnu sylw'n fyr at ein cyfranogiad mewn cynllun treialu i reoli'r ffordd y mae pobl yn cymryd meddyginiaeth, gan atal eu salwch rhag gwaethygu ac angen ymyriadau meddygol, a mynd i'r afael â'r gost £300m o feddyginiaethau sy'n cael eu gwastraffu ledled y DU oherwydd camreoli.

Yn draddodiadol, mae sicrhau bod pobl yn cymryd eu meddyginiaeth yn rheolaidd wedi cynnwys cymysgedd o ymweliadau cartref dyddiol gan ofalwyr, clociau larwm, siartiau wal, systemau monitro dos, anogwyr teleofal a mwy.

Gan fod anfanteision dulliau o'r fath yn amrywio o gostau posibl i anallu i gadarnhau bod meddyginiaeth wedi'i chymryd yn ôl yr angen, mae'r cyngor a Chwm Taf wedi partneru â Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddatblygu dull digidol newydd.

Enw'r cynllun yw 'Your Meds', ac mae hwn yn defnyddio technoleg rheoli meddyginiaeth glyfar ar ffurf blwch pils digidol.

Mae codennau yn y blwch yn cael eu llenwi ymlaen llaw a'u dosbarthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr, ac mae gan y blwch dechnoleg fewnol sy'n hysbysu darparwyr gofal a theuluoedd pan fydd y feddyginiaeth wedi'i chyrchu.

Wrth gwrs, mae hefyd yn cysylltu â nhw i roi gwybod iddynt pan nad yw'r feddyginiaeth a drefnwyd wedi'i chyrchu.

Yn ogystal â chynyddu annibyniaeth a rhoi mwy o ryddid i ofalwyr ac aelodau o'r teulu, mae gan y dull newydd hwn y potensial i arbed hyd at £3,600 y person, y flwyddyn, ac mae'n galluogi staff i wneud gwaith arall.

Trwy leihau nifer yr atgyfeiriadau argyfwng, gall technoleg ddigidol fod yn ataliol tra hefyd yn darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer symleiddio anghenion gofal unigol.

Gyda llai o le i gamgymeriadau, mae'n golygu y gellir buddsoddi arian mewn gwasanaethau allweddol eraill hefyd.

Dim ond un enghraifft yw hon o'r ffyrdd newydd o weithio yr ydym yn eu harchwilio ar hyn o bryd, ac os hoffai aelodau wybod mwy, byddaf yn hapus i ddangos iddynt ble y gallant ddod o hyd i ragor o wybodaeth.

<u>Aelod Cabinet - Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant</u>

Mae'n bosibl y bydd yr Aelodau'n dymuno hysbysu eu hetholwyr am fuddsoddiad sylweddol sydd wedi'i wneud mewn cyfleusterau hamdden newydd ar gyfer y fwrdeistref sirol.

O ganlyniad i waith adnewyddu gwerth £400,000, cyn bo hir bydd Canolfan Chwaraeon Maesteg yn cynnwys campfa fwy gyda pheiriannau cardio newydd sbon, gofod cryfder a chyflyru pwrpasol a pharth lles.

Mae gofodau stiwdio, hyfforddi a gweithdai cwbl newydd wedi'u creu, ac mae gwelliannau hefyd wedi'u gwneud i ardal yr ystafell newid.

Mae gwaith adnewyddu gwerth £200,000 hefyd wedi'i gwblhau'n ddiweddar ym Mhwll Nofio'r Pîl. Mae hyn wedi darparu ystod o gyfleusterau gwell, megis 30 ciwbicl newid newydd, bythau hygyrch maint teulu, cawodydd a goleuadau ynni-effeithlon newydd, a chyfleusterau newid wrth ymyl y pwll i gynnig mwy o gefnogaeth i bobl â phroblemau hygyrchedd.

Bwriad y gwelliannau yw cefnogi hygyrchedd yn ogystal â bod o fudd i iechyd corfforol a meddyliol yr holl drigolion ac maent wedi bod yn bosibl diolch i fuddsoddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Halo Leisure, a Chwaraeon Cymru.

Rwy'n siŵr y bydd aelodau eisiau croesawu'r buddsoddiad hwn a helpu i ledaenu ymwybyddiaeth am y cyfleusterau newydd.

Os hoffech chi gael gwybod mwy, mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Halo.

O ran mater gwahanol, hoffwn gymryd eiliad i fyfyrio ar benderfyniad llywodraeth y DU i rwystro deddf a fyddai'n gwella bywydau a hawliau pobl draws yn yr Alban.

Mae cwestiwn cyfansoddiadol yn bwysig, ond rwy'n meddwl y gallwn gytuno, ni ddylid defnyddio hawliau dynol fel pêl-droed gwleidyddol. Mae'r gymuned draws yn parhau i fod yn un o'r rhannau o'n cymuned sy'n dioddef fwyaf, maent yn wynebu heriau sylweddol wrth gael mynediad at ofal iechyd, er enghraifft, yn ogystal â gwahaniaethu mewn llawer o rannau eraill o'u bywydau. Nid yw'r penderfyniad i drawsnewid yn un sy'n cael ei gymryd yn ysgafn ond dychmygwch orfod byw eich bywyd gan deimlo nad ydych chi mewn gwirionedd yn ffitio a bod rhannau o'ch cymdeithas yn gwadu eich bodolaeth.

Rwy'n croesawu'r galwadau gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn i dderbyn pwerau a fyddai'n caniatáu i Lywodraeth Cymru wella bywydau a hawliau pobl draws yng Nghymru. Fel y dywedodd Vaughan Gethin ddoe "Nid yw fy hawliau i, na hawliau pawb arall, mewn perygl oherwydd bod gan bobl draws eu hawliau. Ac mae'n amlwg nad oes neb yn gyfartal nes ein bod ni i gyd yn gyfartal."

O'r herwydd, rwyf wedi gofyn i swyddogion wneud gwaith ym Mhwyllgor y Cabinet ar Gydraddoldeb yr wyf yn ei gadeirio i ymchwilio i'r heriau a wynebir gan ein trigolion traws ym Mhen-y-bont ar Ogwr a sut y gallwn helpu i liniaru'r heriau hynny.

Aelod Cabinet – Adfywio

Hoffwn rannu rhai o'n hymdrechion diweddar i gefnogi swyddi, cyflogaeth a hyfforddiant gydag aelodau, a sut yr ydym yn cefnogi busnes lleol ffres ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn gyntaf, yn dilyn buddsoddiad mewn lleoliadau fel Canolfan Gymunedol Heol-y-Cyw, Canolfan Gymunedol Westward yng Nghefn Glas a Neuadd Les y Glowyr Pencoed, mae tîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydlu cyfres o hybiau cymunedol.

Mae'r rhain wedi'u cynllunio i helpu trigolion 16 oed a throsodd sy'n ddi-waith, sy'n edrych i weithio mwy o oriau neu gael ail swydd neu swydd newydd, ac yn ceisio darparu cymwysterau galwedigaethol, cyfleoedd gwirfoddoli, y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a mwy.

Mae'r tîm eisoes yn cynnig cymorth mewn 20 o leoliadau gwahanol ac wedi ymrwymo i ymestyn hyn ymhellach i gefnogi cymaint o gymunedau â phosibl yn y misoedd nesaf.

Yn ail, rydym yn gweithio ochr yn ochr â menter Pop Up Wales i ddarparu cyfleoedd yn amrywio o hyfforddiant ymarferol i entrepreneuriaid i ddigwyddiadau ym Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnwys gweithdai Nadoligaidd, cerddoriaeth fyw a mwy.

Mae’r prosiect yn galluogi pobl i ‘roi cynnig’ ar eu syniadau busnes trwy ddarparu stondinau ac eiddo dros dro ac yn eu hannog i ddatblygu eu syniadau a mynd â nhw i’r lefel nesaf tra hefyd yn galluogi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a mentora.

Hyd yn hyn, mae’r rhaglen wedi paru deg menter dros dro â safleoedd gwag yng nghanol trefi, ac rydym yn bwriadu gwneud rhagor o waith gyda Pop Up Wales drwy gydol 2023.

Yn olaf, mae Rebel Business School, sydd wedi ennill gwobrau, yn dychwelyd i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ym mis Mawrth i gynnig cymorth gwerthfawr am ddim i ddarpar entrepreneuriaid.

Wedi'i chynllunio i helpu i roi syniadau ar waith ac i gefnogi busnesau presennol i dyfu, mae'r fenter yn ymdrin â phynciau fel sut i ddechrau busnes, cyngor ar werthu a marchnata, sut i adeiladu gwefan, dod o hyd i gwsmeriaid, materion cyfreithiol a llawer mwy.

Hyd yn hyn, mae wedi cefnogi mwy na 17,000 o bobl drwy bartneriaethau â chymdeithasau tai lleol ac awdurdodau lleol ac mae'n sicr o fod yn ddigwyddiad poblogaidd a bydd llawer yn ei fynychu pan fydd yn dychwelyd.

Byddwn yn annog aelodau i ddarganfod mwy am y mentrau hyn ac i helpu i ledaenu ymwybyddiaeth o'u hargaeledd - mae mwy o fanylion ar gael ar wefan y cyngor.

Mae gennyf newyddion ardderchog i’w rannu ag aelodau ynghylch Cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU.

Rydym wedi derbyn hysbysiad swyddogol bod y cyngor, yn dilyn proses ymgeisio lwyddiannus, wedi cael mwy na £21m o’r gronfa o dan ei themâu o bobl a sgiliau, cefnogi busnesau lleol, a chymuned a lle.

Mae’r arian eisoes wedi’i ddyrannu’n llawn tuag at fentrau penodol ac mae’n cynnwys £8m ar gyfer sefydlu pecyn fframwaith cyflogadwyedd a sgiliau, £3.5m ar gyfer sefydlu canolfannau menter newydd ar draws y fwrdeistref sirol, ac ychydig dros £1m ar gyfer prosiectau iechyd, hinsawdd ac economaidd a fydd yn datblygu cymunedau lleol cryfach a mwy gwydn.

O fewn hyn oll mae prosiectau fel Ffordd Fawreddog Morgannwg, rhwydwaith 270km o ‘goridorau gwyrdd’ a fydd yn cysylltu cymunedau ledled y rhanbarth, cynlluniau i wella

llythrennedd oedolion, cyllid i gefnogi digwyddiadau twristiaeth newydd, rhaglen cymorth menter leol, opsiynau ar gyfer arallgyfeirio, datgarboneiddio a thwf, a llawer mwy.

Fel y gŵyr yr aelodau, mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn disodli'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd blaenorol, ac rydym yn ddiolchgar i gydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am eu bod wedi gweithredu ar ran awdurdodau lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn bwrw ymlaen â chynlluniau unigol yr ardal.

Gyda disgwyl i'r gronfa fod yn ei lle tan fis Mawrth 2025, rydym yn rhagweld y bydd y gwaith cyflawni yn dechrau o fewn y misoedd nesaf, a bydd cyfleoedd i gael mynediad i'r gronfa yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Aelod Cabinet – Cymunedau

Yn ystod y tywydd garw'r wythnos diwethaf, syrthiodd gwerth mwy na mis o law ar Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn llai na 24 awr, a thrwy gydol y cyfan, roedd staff y cyngor allan yn ei chanol hi unwaith eto, yn gweithio bob awr o'r dydd i ymateb i ddigwyddiadau, yn cadw ffyrdd ar agor, cefnogi trigolion lleol a helpu i gadw pobl yn ddiogel ac yn sych.

Diolch i'w hymdrechion a hefyd y gwelliannau seilwaith amrywiol sydd wedi'u cyflwyno dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cadwyd y problemau i'r lleiafswm a llwyddwyd i osgoi llifogydd eang.

Ymhlith y materion y bu'n rhaid i weithwyr ddelio ag ef roedd cwlfert wedi'i flocio a oedd yn taflu mwd, creigiau a malurion eraill ar ffordd fynydd Bwlch yr A4061 gan olygu bod angen cau un lôn.

Tra bu'n rhaid i'r Bont Drochi yn Heol New Inn ym Merthyr Mawr gau oherwydd lefelau uchel yr afon, ysgogwyd larymau cwlfert mewn ardaloedd fel Heol Faen ym Maesteg a Min y Nant ym Mhencoed, ond ni gafwyd gorlifau.

Yn anffodus, effeithiwyd ar rannau o Gwm Ogwr ar ôl i systemau draenio gael eu llethu gan y swm aruthrol o law, felly ar ôl i ddŵr fynd i mewn i eiddo yn Cemetery Road ac Alma Terrace, bu criwiau'r cyngor yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i bwmpio siambrau draenio allan a dargyfeirio dŵr i ffwrdd o eiddo gan ddefnyddio bagiau tywod.

Cafodd cwlfert y tu ôl i Bethania Row ei lethu gan ddŵr glaw ar ôl cael ei rwystro gan falurion a oedd wedi golchi i lawr yr afon, ond rhwystrwyd ymdrechion i gael mynediad iddo oherwydd ceir a oedd wedi'u parcio.

Ar ôl i swyddogion o Heddlu De Cymru helpu i rybuddio deiliaid tai a sicrhau bod y ceir yn cael eu symud, llwyddodd gweithwyr y cyngor i glirio'r rhwystr, ond nid cyn i rywfaint o lifogydd ddigwydd yn anffodus yn y Neuadd Les gerllaw.

Cafodd sawl uned ar Stad Ddiwydiannol Penllwyngwent hefyd lifogydd oherwydd bod dŵr yn llifo oddi ar dir y tu ôl i'r adeilad, a gafodd ei ddargyfeirio'n ddiweddarach gan ddefnyddio bagiau tywod.

Mewn mannau eraill yn y fwrdeistref sirol, syrthiodd un goeden ar draws y briffordd ger ffatri Rockwool yn Wern Fawr. Ymatebodd gweithwyr y cyngor yn gyflym i gael gwared ar y goeden a sicrhau bod y ffordd yn aros ar agor.

Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i ddangos sut mae'r cyngor yn gweithio i gadw pobl yn ddiogel, eiddo'n sych a ffyrdd yn glir. Mae ein criwiau yn gwneud gwaith gwych, ac rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am eu llongyfarch am eu hymdrechion.

Aelod Cabinet – Adnoddau

Gan ein bod nawr yn cyrraedd dyddiau olaf ein hymgynghoriad cyllideb blynyddol, a agorodd fis Rhagfyr diwethaf, hoffwn ofyn i'r aelodau annog eu hetholwyr i gymryd rhan cyn iddo gau ar 22 Ionawr.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig cyfle i drigolion ddweud eu dweud ar flaenoriaethau gwariant y cyngor a helpu i lunio cyllideb yr awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.

Yn union fel y mae aelwydydd yn wynebu heriau ariannol enbyd yn ystod yr argyfwng costau byw, felly hefyd y cyngor, ac mae'n rhaid inni ymdrin â phwysau ychwanegol sylweddol ar y gyllideb o £20m o leiaf.

Er gwaethaf setliad gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru, mae angen inni arbed £3.5m o hyd, ac rydym yn edrych i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu'r math o wasanaethau y mae trigolion eu heisiau gan ddefnyddio adnoddau cynyddol gyfyngedig.

Dyna pam rydym am i drigolion lleol roi eu hadborth i ni a dweud wrthym beth yw eu barn am ein blaenoriaethau gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gyda'r manylion llawn ar gael ar wefan y cyngor, gallwch naill ai lenwi copi o'r ymgynghoriad ar-lein, neu gysylltu â'n tîm Ymgynghori i'w dderbyn mewn fformat arall.

Aelod Cabinet – Addysg

Mae gennyf ddau fater yr hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau amdanynt.

Yn gyntaf, efallai y cofiwch y cyhoeddwyd ym mis Ionawr y byddai ein Tîm Cymorth Ieuenctid yn ehangu'r ddarpariaeth o fannau diogel i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed yn ei ganolfannau presennol.

Mae'r rhain wedi'u lleoli yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen, Ysgol Gyfun Cynffig a Chanolfan Ymgysylltu ag Ieuenctid Pencoed.

Fe gyhoeddon nhw hefyd y bydden nhw'n sefydlu dwy ganolfan newydd, un yn ardal Bryntirion / Cefn Glas, ac un arall ym Mracla.

Yn anffodus, mae hyn wedi arwain at ledaenu gwybodaeth anghywir ar gyfryngau cymdeithasol ynghylch pryderon diogelu wrth feddwl bod plant yn cael cymysgu â phobl yn eu hugeiniau cynnar.

Rwyf am ei gwneud yn gwbl glir bod ein holl waith ieuenctid yn digwydd o fewn amgylchedd diogel, a chan roi ystyriaeth lawn i fesurau diogelu.

Y rheswm pam fod cymorth ar gael i bawb o fewn yr ystod oedran honno yw oherwydd yn ôl y gyfraith, disgwylir i gynghorau ddarparu cymorth ieuenctid i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed.

Er bod hyn hefyd yn unol â Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru Llywodraeth Cymru, yn ymarferol gwelwn fod yn well gan lawer o bobl ifanc hŷn gael mynediad at ein darpariaeth sydd wedi'i thargedu, ac nid ein canolfannau ieuenctid.

Mae pob un o'n canolfannau'n cael eu rhedeg gan weithwyr ieuenctid â chymwysterau proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gyfarwydd iawn â materion fel diogelu, llinellau cyffuriau, radicaleiddio, camfanteisio rhywiol a mwy.

Ymhellach, bydd y canolfannau yn trefnu eu gweithgareddau fel bod nosweithiau neu amseroedd gwahanol yn cael eu dyrannu i grwpiau oedran penodol.

Y gwir amdani yw bod y canolfannau'n cael eu rhedeg yn briodol ac yn broffesiynol fel eu bod yn parhau i gynnig lle diogel i bobl iau.

Yr ail fater yr wyf am roi gwybod i'r aelodau amdano yw pryderon ynghylch gweithredu diwydiannol arfaethedig gan Undeb Cenedlaethol y Prifathrawon a'r Undeb Addysg Cenedlaethol.

Mae hyn wedi'i gadarnhau ar ôl i ganlyniad pleidlais NEU Cymru weld 92 y cant o athrawon-aelodau yn pleidleisio o blaid streic, a 75 y cant o aelodau NUHT Cymru.

Mae disgwyl i'r gweithredu diwydiannol effeithio ar ysgolion ar y cyntaf a'r pedwerydd ar ddeg o Chwefror, a'r pymthegfed a'r unfed ar bymtheg o Fawrth.

I baratoi ar gyfer hyn, mae swyddogion yn gweithio ochr yn ochr â phenaethiaid i ateb ymholiadau sydd wedi'u cynllunio i hwyluso parhad busnes, ac i helpu i gyfyngu ar effeithiau.

Ymhlith yr ymholiadau y gofynnwyd inni eu hegluro hyd yn hyn y mae cwestiynau ar gyfathrebu priodol â staff, rhieni a gofalwyr, trothwyon ar gyfer cau, trefniadau ar gyfer disgyblion agored i niwed a'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, goblygiadau ar gyfer ffigurau presenoldeb a mwy.

Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a byddaf yn rhoi diweddariadau pellach ichi wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

<u>Prif Weithredwr</u>

Mae gennyf ddiweddariad byr iawn i'w gynnig i'r aelodau ynglŷn â chynnydd ail gam cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Cawsom hysbysiad swyddogol yn gynharach yn yr wythnos bod cyhoeddiad ar ganlyniad ail gam y gronfa Ffyniant Bro ar fin digwydd.

Rydym yn rhagweld y bydd llythyrau'n cael eu hanfon yn fuan at arweinwyr cynghorau, ASau sydd wedi darparu cymorth, rheolwyr cynigion a swyddogion Adran 151 ar fore'r cyhoeddiad.

Bydd hyn cyn cyhoeddiad cyhoeddus a datganiad i'r cyfryngau yn ddiweddarach yr un diwrnod.

Bydd yr Aelodau, wrth gwrs, yn ymwybodol ein bod wedi cyflwyno dau gais manwl i'r Gronfa Ffyniant Bro yn flaenorol - cais o £20 miliwn ar gyfer adnewyddu Pafiliwn y Grand ym Mhorthcawl yn gyfan gwbl, a Chynnig Trafnidiaeth o £25 miliwn ar gyfer Pont Ffordd Penprysg newydd. a chael gwared ar y groesfan reilffordd ym Mhencoed.

Os byddant yn llwyddiannus, mae gan y ddau brosiect uchelgeisiol hyn y potensial clir i sicrhau manteision sylweddol i'r fwrdeistref sirol, ac rydym yn parhau i fod yn hynod frwdfrydig a gobeithiol am ganlyniad cadarnhaol.

Byddaf, wrth gwrs, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi drwy gydol y broses hon, a gobeithiaf fod mewn sefyllfa i roi manylion mwy cynhwysfawr ichi yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

81. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Er bod y rhybudd tywydd melyn sydd yn ei le ar hyn o bryd ar draws llawer o Dde Cymru wedi arwain at rai cawodydd o eira yn gynnar yn y bore ac amodau rhewllyd ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rydym hyd yma wedi llwyddo i osgoi'r rhan fwyaf o'r aflonyddwch torfol a brofwyd mewn mannau eraill.

Fel y gallech ddisgwyl, mae ein timau wedi bod yn gweithio rownd y cloc unwaith eto, ac mae lorïau graeanu wedi bod yn gwneud sawl taith i drin y rhwydwaith ffyrdd a chadw ffyrdd y fwrdeistref sirol yn glir.

Mae'r eira gwaethaf wedi effeithio ar ein cymunedau yn y cymoedd a'n hardaloedd tir uwch, ac mae criwiau wedi bod yn defnyddio ein herydr eira i helpu i'w cadw'n glir.

Mae hyn yn cynnwys ffordd fynydd Bwlch, a fu ar gau dros dro am rai oriau, ond y disgwylir iddi agor eto y prynhawn yma.

Diolch byth, ni effeithiwyd ar yr holl gasgliadau ailgylchu a gwastraff ac maent wedi parhau fel arfer. Bu'n rhaid i Ganolfan Ailgylchu Cymunedol Maesteg gau ei gatiau dros dro cyn ailagor yn hwyrach yn y dydd, ond roedd y safleoedd yn Llandudwg a Brynmenyn yn parhau ar agor fel arfer.

Yn anffodus, fe wnaeth yr eira orfodi Ysgol Gynradd Caerau, Ysgol Cynwyd Sant, Calon y Cymoedd ac Ysgol Gynradd Nantyffyllon i gau am y diwrnod.

Mae yna lawer o resymau pam y gallai hyn fod yn angenrheidiol yn ystod tywydd garw, ac nid oes angen eira trwm bob amser ar gyfer cau – er enghraifft, efallai na fydd ysgol yn gallu agor oherwydd pibellau wedi rhewi a allai fod wedi byrstio, neu oherwydd goruchwyliaeth annigonol gan y staff oherwydd nad oedd rhai o staff yr ysgol yn gallu teithio i mewn o ardaloedd eraill lle bu'r eira'n drymach.

O'r herwydd, efallai y bydd aelodau am atgoffa eu hetholwyr bod gwefan y cyngor yn cynnwys adran gynhwysfawr ar sut mae'r cyngor yn ymdrin â chyfnodau o dywydd garw ac yn cynnwys tudalen cau ysgolion bwrpasol y gall penaethiaid ei defnyddio i roi gwybod i rieni a gofalwyr a yw ysgol wedi gorfod cau yn annisgwyl.

Bydd ysgolion hefyd yn cyfathrebu'n annibynnol â rhieni a gofalwyr gan ddefnyddio eu systemau eu hunain ac fe'u cynghorir i baratoi trefniadau dysgu cyfunol fel cynllun wrth gefn er mwyn lleihau'r amhariad pe bai'r ysgol yn cau.

Mae canllawiau cenedlaethol hefyd wedi'u cynhyrchu ar gyfer ysgolion a lleoliadau gofal plant neu chwarae, a gallwch ddod o hyd iddynt ar wefan Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn annog yr aelodau i edrych yn agosach ar hwn ac adnodd gwe'r cyngor ei hun, ac i wneud defnydd llawn ohono os bydd unrhyw dywydd garw pellach.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'n hymdrechion parhaus i fynd i'r afael â digartrefedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae gennyf newyddion da iawn i'w rannu yn hyn o beth.

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd Julie James wedi ysgrifennu i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dyrannu £10m ychwanegol mewn cyllid refeniw i gynghorau lleol yn 2022-23, er mwyn cefnogi atal digartrefedd a chostau darparu llety dros dro.

Mae hyn, wrth gwrs, ar ben y £10m sydd eisoes wedi'i ddyrannu yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer llety dros dro, a £6m ar gyfer atal digartrefedd dewisol.

Ymhellach, mae'r gweinidog wedi cadarnhau ei bod yn dyrannu £24m ychwanegol i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro, sy'n ceisio darparu llety o ansawdd da, tymor hwy sydd yn ei dro yn lleihau'r pwysau a roddir ar ddefnyddio llety dros dro.

Er mai'r nod tymor hwy o hyd yw lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro, symud tuag at ddull ailgartrefu cyflym a diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i gyflawni'r trawsnewid hwn, ac mae wedi dyrannu'r adnoddau ychwanegol hyn i gefnogi hwn.

Rydym ar hyn o bryd yn aros i glywed beth fydd cyfran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r dyraniad, ond rwy'n siŵr y bydd yr aelodau'n ymuno â mi i groesawu'r adnodd ychwanegol hwn.

Yn olaf, rwy'n siŵr y bydd yr aelodau am ymuno â mi i longyfarch y Dirprwy Arweinydd Jane Gebbie yn dilyn y cyhoeddiad ei bod wedi'i phenodi'n Gadeirydd newydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg.

Fel cadeirydd, bydd y Cynghorydd Gebbie yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r bwrdd yn cydweithio i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl sy'n byw yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Ymhlith ei dyletswyddau cyntaf bydd goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Ardal Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, sy'n amlinellu camau gweithredu ar gyfer creu gwell gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a sicrhau bod partneriaid yn gweithio'n gydgynhyrchiol gyda chymunedau a staff rheng flaen i greu, arwain a gwerthuso gwasanaethau yn effeithiol.

Daw'r Cynghorydd Gebbie â chyfoeth o brofiad i'r rôl, a gwn y bydd yn gadeirydd effeithiol a medrus.

82. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF - ADRODDIAD CHWARTER 3 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau mewn perthynas â'r sefyllfa gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Dywedodd fod Strategaeth Gyfalaf y Cyngor wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2022. Cyfanswm y gyllideb gyfalaf gymeradwy a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror oedd £69.979 miliwn.  Roedd y rhaglen gyfalaf wedi'i ddiweddaru a'i chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ym mis Hydref y llynedd.

Mae Adran 4 o'r adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ar raglen gyfalaf y Cyngor eleni. Cyfanswm y rhaglen ddiwygiedig am y flwyddyn oedd £61.7m gyda £28.2m yn cael ei ariannu gan adnoddau CBSPAO a'r gweddill o £33.5m yn cael ei ariannu o

ffynonellau allanol. Dangoswyd dadansoddiad o’r rhaglen ar draws gwasanaethau yn Nhabl 1 yn yr adroddiad, gyda mwy o fanylion am ariannu’r rhaglen i’w gweld yn Nhabl 2.

Roedd manylion am gynlluniau unigol i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai Aelodau'n gweld mai cyfanswm y llithriant y gofynnwyd amdano yn Chwarter 3 yw £28.5m. Manylwyd ar y rhesymau dros y llithriant ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad.

Yn ogystal ag addasiadau ar gyfer llithriant, roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar rai cynlluniau newydd a diwygiedig i’w cymeradwyo a oedd yn cynnwys cyllid Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd i ariannu nifer o gynlluniau gan gynnwys:

- o Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi i fynd i’r afael â’r dirywiad yng nghanol trefi a’r gostyngiad yn y galw am fanwerthu ar y Stryd Fawr;
- o Cyllid tai gyda gofal i gefnogi datblygiad y ganolfan breswyl i blant;
- o Arian Cronfa Trawsnewid ULEV i gefnogi darparu seilwaith gwefru cerbydau trydan o fewn meysydd parcio cyhoeddus; a
- o Grant Cronfa Gwella Mynediad i gefnogi gwaith i wella mynediad i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac arno.

Yn ogystal â grantiau Llywodraeth Cymru, roedd cyllid hefyd wedi'i nodi i ariannu mentrau eraill, gan gynnwys;

- Cyfraniadau ychwanegol A106 i gefnogi darparu cynlluniau tai fforddiadwy;
- Cyllid ychwanegol o gronfa trafnidiaeth leol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gefnogi prosiect gorsaf fysiau Porthcawl;
- Cyllid i gefnogi cynllun ysgol egin cyfrwng Cymraeg Porthcawl;
- Cyllid gan Chwaraeon Cymru i wella cyfleusterau allanol yn Ysgol Bryn Castell i'w defnyddio gan yr ysgolion a'r gymuned;
- Gwaith croesi ffyrdd ym Mynydd Cynffig; a
- Arian ychwanegol ar gyfer prynu offer TGCh i ysgolion.

Roedd newidiadau hefyd i ddau gynllun y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, gyda’r rhaglen ddiwygiedig lawn i’w gweld yn Atodiad B.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, pan gymeradwyodd y Cyngor y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer eleni, ei bod yn cynnwys dangosyddion darbodus ar gyfer 2022-23 i 2024-25. Roedd Atodiad C i'r adroddiad yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y terfynau awdurdod lleol a gymeradwywyd.

Canmolodd yr Aelod Cabinet – Adnoddau yr adroddiad.

Gofynnodd Aelod am rywfaint o eglurhad ynghylch Benthyciad Datblygu Cwm Llynfi, sef bod benthyciad yn awgrymu bod yn rhaid ad-dalu rhywfaint o arian, nad oedd yn credu ei fod yn gwbl wir.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, er ei fod yn cael ei alw'n fenthyciad, nid oedd rhan o hwn yn ad-daladwy.

Croesawodd Aelod y ffrydiau ariannu ychwanegol ar gyfer gorsaf Fysiau Porthcawl (£404k) a’r Hyb Preswyl i Blant (608k).

Holodd Aelod beth oedd y Cynlluniau Priffyrdd yn ei gynrychioli o ran ysgolion Band B a gofynnodd hefyd pryd y byddai'r dyfeisiau gwefru cerbydau trydan yn weithredol ym meysydd parcio Pen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i ymrwymo o ran Cyfraddau Ymyrraeth o 75% ar gyfer ysgolion arbennig a 65% ar gyfer ysgolion 'eraill'. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r awdurdod lleol ddod o hyd i gyllid ychwanegol ar gyfer gwaith seilwaith o amgylch ysgolion er mwyn sicrhau mynediad digonol a diogel iddynt. Ychwanegodd fod hyn yn swm sylweddol, o gofio nifer yr ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol yn ogystal â'r rhai a fwriedir, h.y. adeiladu o'r newydd.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau y byddai gan bob maes parcio cyhoeddus gyfleuster i wefru cerbydau electronig ar ôl 2025, a bod y Cyngor ar hyn o bryd yn aros i Western Power bweru rhai pwyntiau gwefru erbyn diwedd Chwefror/Mawrth. Pan fyddai'r rhain yn weithredol, byddai hysbysiad yn mynd allan i'r perwyl hwn er budd y cyhoedd.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 41 ac Atodiad A yr adroddiad mewn perthynas ag ymholiadau ariannu yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Pencoed.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chymorth i Deuluoedd y byddai'n siarad â'r Aelod lleol ynghylch y rhain, y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd Aelod fod llithriant prosiectau yn y rhaglen Gyfalaf yn bryder cynyddol a gofynnodd a ddylai'r Awdurdod o bosibl ystyried grwpio holl brosiectau'r Cynllun Cyfalaf o dan un Gweithgor Cyfalaf. Nododd hefyd fod yna gynlluniau o fewn y Rhaglen Gyfalaf yn cyd-fynd â gwahanol Gyfarwyddiaethau ac ati, ond roedd yn meddwl tybed a ddylid ystyried gwariant cyfalaf i gynhyrchu refeniw, i gael ei gynnwys o dan fath o gynnig 'Cynllun Gwario'.

Dywedodd y Prif Weithredwr ar y pwynt olaf y gellid ymchwilio i hyn i weld a fyddai unrhyw fanteision amlwg o gynnig o'r fath. Ychwanegodd y byddai'n fuddiol, er enghraifft, edrych i wneud arbedion refeniw mewn cynlluniau ynni, er mwyn gwrthweithio costau cyfleustodau cynyddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau fod nifer o resymau dilys pam fod rhai cynlluniau yn destun llithriant ac felly'n profi oedi. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion i ail-arolygu safleoedd, amodau'r farchnad lle'r oedd prisiau deunyddiau ac ati wedi cynyddu ac opsiynau cynllun codi tâl, ymhlith eraill.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw fwriad i adeiladau'r Cyngor megis er enghraifft, y prif Swyddfeydd Dinesig, gael eu meddiannu ymhellach gan staff nawr bod Covid 19 dan reolaeth rhesymol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai gweithio ystwyth a oedd yn golygu bod staff naill ai'n gweithio o bell gartref neu yn y swyddfa (ond o bell yn bennaf) yn parhau i bob pwrpas, gan fod hyn wedi profi i fod yn ffordd effeithiol o weithio. Ategwyd hyn gan Bolisi Gweithio Hybrid a roddwyd ar waith o fewn CBSPAO. Hefyd, roedd gweithio ystwyth yn dilyn y canllawiau a roddwyd i sefydliadau mawr fel awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, mewn ymgais i leihau allyriadau carbon o dan yr agenda Carbon Sero Net.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor:

1. Yn nodi diweddariad Chwarter 3 Rhaglen Gyfalaf 2022-23 y Cyngor hyd at 30 Rhagfyr 2022 (Atodiad A i'r adroddiad)

2. Yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B)
Yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2022-23 (Atodiad C)

83. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad, a'i ddiben oedd darparu gwybodaeth i'r Cygor ynglŷn â gweithredu cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2023-2024 a nodi'r angen i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2023.

Fel cefndir, cadarnhaodd fod gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhoi cymorth i'r rhai ar incwm isel sy'n agored i dalu'r Dreth Gyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun sengl wedi'i ddiffinio'n genedlaethol ar gyfer darparu cymorth y dreth gyngor sy'n darparu ar gyfer nifer fach o elfennau dewisol y gall Cynghorau unigol ddewis eu mabwysiadu. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gostau cysylltiedig ychwanegol gael eu hariannu'n lleol.

Bydd y cynllun presennol a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023, esboniodd y Prif Swyddog – Cyllid, Perfformiad a Newid.

Mae Rheoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2023 bellach wedi'u gosod gerbron y Senedd i'w cymeradwyo. Mae'r rheoliadau newydd yn cynnwys newid i'r cynllun presennol i:

- Sicrhau y bydd gwladolion Wcráin cymwys yn gymwys i gael eu cynnwys yng nghynllun rhyddhad treth gyngor awdurdod lleol a byddant yn gymwys i gael gostyngiad os ydynt yn bodloni gofynion eraill y cynllun;
- Darparu amddiffyniad i letywyr ar gyfer y cynllun Cartrefi i Wcráin. Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth fel bod unrhyw wladolyn o'r Wcrain y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig, neu sydd â hawl i breswylio, i'w drin fel dibynnydd ar y lletywr sy'n gwneud cais at ddiben cyfrifo hawl i'r disgownt hwn. Mewn gwirionedd mae hyn yn cadw lefel hawl yr ymgeisydd lletyol;
- Cael gwared ar yr eithriad ar gyfer dinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd bellach yn destun rheolaeth fewnfudo

Ychwanegodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid nad yw'r rheoliadau newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill i'r cynllun presennol a bod uchafswm y cymorth y gall hawlwyr cymwys ei dderbyn yn parhau ar 100%.

O fewn y rheoliadau gofynion rhagnodedig, cyfyngedig yw'r disgresiwn a roddir i'r Cyngor i gyflwyno elfennau sy'n fwy hael na'r cynllun cenedlaethol. Y rhain oedd:

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod gostyngiad estynedig safonol o bedair wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith lle cawsant CTR yn flaenorol.
- Disgresiwn i gynyddu symiau pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm yr hawlydd.
- Y gallu i ôl-ddyddio'r cais am ryddhad y dreth gyngor mewn perthynas â hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol newydd o dri mis cyn yr hawliad.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2023, p'un a yw'n dewis cymhwyso unrhyw rai o'r elfennau dewisol ai peidio. Pe bai'r Awdurdod yn methu â chytuno ar gynllun, yna byddai cynllun diofyn yn berthnasol.

Ychwanegodd fod yr elfennau dewisol arfaethedig ar gyfer 2023-2024 wedi'u hamlinellu'n fanylach yn Nhabl 1 ym mharagraff 4.23 o'r adroddiad. Roedd y disgresiwn a gynigiwyd yn ymwneud â lefelau diystyru mewn perthynas ag incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â phensiynau anabledd rhyfel a phensiynau rhyfel gweddw/gŵyr gweddw a'r cynnig yw y byddai cyfanswm gwerth unrhyw bensiwn a nodir yn cael ei ddiystyru.

Amcangyfrifir mai cost y cynigion hyn i'r Cyngor yw £6,659 yn 2023-24.

Gorffennodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid drwy nodi o'r data diweddaraf, bod 12,602 o aelwydydd ar hyn o bryd yn derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor (CTR); roedd 8,101 o'r rhain o oedran gweithio a 4,500 o oedran pensiwn. O'r 12,601 o aelwydydd sy'n derbyn CTR, mae gan 9,701 hawl i ostyngiad CTR llawn.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- Yn nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a rheoliadau diwygio 2014 i 2023;
- Yn mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2023-2024 fel y nodir ym mharagraffau 4.18 i 4.23 o'r adroddiad.

84. SAFLEOEDD DATBLYGU LLYNFI - HEN SAFLE GOLCHFA MAESTEG GORLLEWIN

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ymrwymo i Weithred Amrywio rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO) sy'n ceisio amrywio Safleoedd Datblygu presennol Llynfi, Cytundeb Benthyciad Cronfa Gyfalaf Ganolog Llywodraeth Cymru dyddiedig 12 Chwefror 2015.

Eglurodd fod CBSPAO bellach yn ystyried ailddatblygu Hen Safle Golchfa Maesteg Gorllewin yn unig ar gyfer datblygiad tai a'i fod yn dymuno amrywio'r Cytundeb gwreiddiol i ganiatáu gwneud y gwaith dichonoldeb.

Er mwyn cael rhywfaint o wybodaeth gefndir, yn 2013, cynhaliodd DTZ Real Estate Investment Management ddadansoddiad o'r holl safleoedd yng Nghwm Llynfi y gellid eu dwyn ymlaen o bosibl i'w datblygu ond a oedd â phroblemau yr oedd angen eu goresgyn cyn y gellid mynd â nhw i'r farchnad. Nodwyd tri safle yn wreiddiol yn yr astudiaeth fel Cyfleoedd Strategol Blaenoriaeth 1 ar gyfer datblygiad preswyl (gweler Atodiad A i'r adroddiad):

- Hen Safle Golchfa Maesteg Gorllewin
- Hen Safle Golchfa Maesteg Dwyrain
- Hen Safle Ysgol Gyfun Isaf Maesteg

Gwnaed cais i Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn Ganolog Llywodraeth Cymru a arweiniodd at Adfywio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSPAO) yn sicrhau benthyciad o £2.5 miliwn heb fod angen arian cyfatebol gan CBSPAO.

Arwyddwyd y Cytundeb Benthyciad (gweler Atodiad B) ym mis Chwefror 2015 rhwng Llywodraeth Cymru a CBSPAO i alluogi'r Cyngor i ymdrin â chyfyngiadau ffisegol ar y safleoedd, er mwyn eu dwyn ymlaen ar gyfer datblygiad preswyl wedi'u hintegreiddio â mannau amwynder agored.

Yn dilyn cynnal Astudiaeth Dichonoldeb, cynghorwyd y Cyngor i beidio ag ailddatblygu Hen Safle Golchfa Maesteg Dwyrain, gan ystyried bod gan Hen Safle Ysgol Gyfun Isaf Maesteg y potensial i gael ei ddatblygu drwy ddulliau eraill, Extra Care Housing (ECH).

Felly, cytunodd Bwrdd Prosiect Safleoedd Datblygu Llynfi CBSPAO y byddai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda Hen Safle Golchfa Maesteg Gorllewin yn unig.

Ym mis Mehefin 2022, anfonwyd y ffioedd ymgynghori a gadarnhawyd a chostau gwaith safle ar gyfer Cyfran 1 (Dichonoldeb) i Lywodraeth Cymru gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr a gwnaed cais i godi Cyfran 1 i £322,589 i adlewyrchu'r cynnydd sylweddol. Roedd y cais hwn hefyd yn cynnig bod Cyfran 1 yn dod yn grant yn hytrach na benthyciad a bydd ymrwymo i Weithred Amrywio (DoV) i'r Cytundeb Benthyciad gwreiddiol yn adlewyrchu hyn. Cafwyd cymeradwyaeth gan banel grantiau Llywodraeth Cymru a chymeradwyaeth weinidogol ddilynol i amrywio'r Cytundeb gwreiddiol i'r perwyl hwn drwy DoV ym mis Gorffennaf 2022.

Ym mis Medi 2022, cyhoeddwyd DoV drafft gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau CBSPAO. Yn dilyn mewnbwn gan Adrannau Cyfreithiol a Chyllid CBSPAO, mae'r geiriad bellach wedi'i gytuno ac mae'r fersiwn terfynol sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn aros i'r Cyngor ei gymeradwyo a'i dderbyn (gweler Atodiad C i'r adroddiad).

Roedd paragraff 4.6 o'r adroddiad yn cynnwys manylion ar sut yr oedd gwaith safle yn mynd rhagddo a rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau grynodeb cyflym o hyn er budd y Cyngor.

I gloi ei chyflwyniad, amlinellodd oblygiadau ariannol yr adroddiad a ddangosir ym mharagraff 8 ynghylch y gwaith, ac ati.

Canmolodd Aelod lleol y gwaith a wnaed hyd yn hyn, gan gynnwys trosi benthyciad yn grant ac felly roedd yn gobeithio y byddai canlyniadau'r arolwg safle yn gadarnhaol er mwyn darparu tai fforddiadwy yn y lleoliad hwn, yr oedd eu hangen yn fawr yn y dyffryn hwn.

Dywedodd Aelod lleol arall ei fod yn gobeithio y gallai'r tir dan sylw, os na allai gynnwys tai fforddiadwy yno, gael ei symud ymlaen yn lle hynny ar gyfer defnydd hamdden/man agored.

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn obeithiol y gellid defnyddio'r tir at ddibenion tai y gellir eu datblygu. Fodd bynnag, os nad oedd hynny'n bosibl, gallai'r Awdurdod ystyried ei ddefnyddio fel safle at ddibenion bioamrywiaeth uwch. Ychwanegodd ei bod yn bwysig yn y dyfodol, i drefnu sesiwn friffio i'r aelodau lleol a holl Gynghorwyr Maesteg ar yr opsiynau sydd ar gael i'r ardal yn y dyfodol ar ôl i'r holl ymchwiliadau safle ddod i ben.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- Yn nodi'r newid i gost y cynllun hwn a'r cyllid cysylltiedig yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Hen Safle Golchfa Maesteg Gorllewin (Rhaglen Datblygu Dyffryn Llynfi);

- Yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau gytuno a chymeradwyo telerau terfynol y Weithred Amrywio a threfnu gweithredu hynny ar ran y Cyngor yn amodol ar arfer pwerau o'r fath mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Swyddog Polisi Corfforaethol ac Adran 151

85. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Adroddodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, ar yr Adroddiad Gwybodaeth a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau fod dau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr ardal ar hyn o bryd a fyddai'n uno i fod yn un i wasanaethu ardal Cwm Taf Bro Morgannwg. Wedi'u nodi yn y Cynllun Llesiant drafft yn Atodiad 1 i'r adroddiad, roedd dau brif amcan sef Cymdogaethau Lleol Iach a Chymdogaethau Lleol Cynaliadwy a Gwydn, gan ganolbwyntio felly ar ymgysylltu i glywed llais y dinesydd a chael cyfranogiad cymunedol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau cywir, a oedd yn hollbwysig yn ei farn ef. I'r perwyl hwn, gofynnodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau annog eu hetholwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar hyn a ddaw i ben fis nesaf.

Anogodd Cadeirydd y CO&SC yr Aelodau i fynychu'r sesiwn Datblygu Aelodau ar y pwnc hwn ar 30 Ionawr 2023, er mwyn hyrwyddo a datblygu'r broses graffu ymhellach o fewn yr Awdurdod a chydag unrhyw bartneriaid.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad. |

86. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN:

**Cynghorydd Tim Thomas i'r Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol**

A wnaiff yr Aelod Cabinet ddatganiad ynghylch a yw'n fodlon bod cartrefi sy'n cael eu rhentu'n gymdeithasol yn y Fwrdeistref Sirol, cyn belled ag y bo modd, yn ddiogel ac yn rhydd rhag niwed a allai achosi canlyniadau iechyd negyddol?

**Ymateb**

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at bob landlord cymdeithasol ar 15 Rhagfyr 2022 yn dilyn marwolaeth drasig Awaab Ishak, dwy flwydd oed, a fu farw o gyflwr anadlol a achoswyd gan ddod i gysylltiad â llwydni. Roedd y llythyr hwn yn amlinellu'r camau gweithredu sy'n ofynnol gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru i sicrhau bod mesurau ar waith i nodi a mynd i'r afael yn benodol â materion yr adroddwyd amdanynt gyda lleithder a llwydni. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ymchwiliadau ac archwiliadau, delio ag anwedd a'i achosion, cywiro unrhyw ddiffygion cyn gynted â phosibl a chefnogi tenantiaid gyda chymorth a chyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am wybodaeth a sicrwydd bod landlordiaid yn ymateb i'r materion hyn a darparu hynny iddynt erbyn 20 Ionawr.

Fel yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, rwy'n gwbl gefnogol i'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r cyfrifoldebau sydd ar landlordiaid cymdeithasol. Rwyf innau hefyd wedi ceisio sicrwydd yn ddiweddar gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) lleol eu bod yn cymryd camau i sicrhau bod eu llety'n ddiogel. Byddaf yn parhau i geisio sicrwydd bod hyn yn wir gan ein partneriaid LCC ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a bod unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol a amlygwyd yn yr adolygiad yn cael rhoi ar waith.

Mae fframwaith o bolisïau, prosesau a chyfraith sy'n nodi'r safonau a ddisgwylir gan gartrefi, nid yn unig o fewn y sector rhentu cymdeithasol, ond hefyd mewn perthynas â'r sector rhentu preifat yn gyffredinol.

Daeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym ar 1 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn newid y ffordd y mae landlordiaid yn rhentu eu heiddo ac yn berthnasol i landlordiaid ac asiantaethau gosod/rheoli. Mae'r Ddeddf yn dod â mwy o hawliau i denantiaid ac elfen

allweddol o'r ddeddfwriaeth hon yw bod yn rhaid i bob eiddo fod yn ddiogel. Roedd y Ddeddf hon yn cyflwyno gofyniad i sicrhau bod cartrefi'n Ffit i Fod yn Gartref (FFHH). Mae hyn yn cynnwys gofyniad am brofion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid yn cael eu gosod mewn eiddo.

Yn ogystal, mae Rhentu Doeth Cymru, sef system drwyddedu a chofrestru yn cefnogi'r rhai sy'n gosod neu'n rheoli eiddo ac yn rhoi cyngor ar y gofynion a'r rhwymedigaethau i sicrhau bod landlordiaid yn cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch y sector preifat.

Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru (WQHS) ar waith ar gyfer pob datblygiad tai cymdeithasol newydd ac mae'n sicrhau bod eiddo mewn cyflwr da, yn ddiogel, ac wedi'u gwresogi'n ddigonol. Mae WQHS 2023 yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd i godi safonau ar uchelgeisiau datgarboneiddio a chynnwys elfennau arbed ynni i denantiaid. Mae'n rhaid i ddatblygiadau a ariennir drwy'r Grant Tai Cymdeithasol (SHG) - grant LlC - gydymffurfio â'r safonau hyn. Mae'r grant hwn yn cefnogi'r rhaglen ddatblygu arfaethedig i gynyddu'r cyflenwad o lety gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Mae'r gwasanaeth tai yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol i ddarparu tai newydd drwy raglen 3 blynedd. Er mai amcangyfrifon yw'r canlyniadau ar hyn o bryd, mae'r rhaglen wedi'i threfnu i ddarparu 536 o gartrefi dros gyfnod o 3 blynedd ac amcangyfrifir y bydd lefel cyllid grant oddeutu £41miliwn.

Rydym hefyd yn gallu cymryd camau ar ffurf gorfodi. Mae gwybodaeth gan y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir yn dangos iddynt dderbyn 46 o gwynion gan denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol yn 2022 o dan y categorïau a ganlyn:-

- Cyflwr gwael = 15
- Lleithred a Chyflwr gwael = 15
- Lleithder a Llwydni = 12
- Llygod mawr, Lleithder a Chyflwr gwael = 1
- Llygod mawr a Chyflwr gwael = 3

Eu cam gweithredu cyntaf i gwynion gan denantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fyddai cysylltu â'r LCC am wybodaeth a gofyn iddynt ymchwilio i'r gŵyn a chymryd camau adferol lle bo'n briodol. Nid ydynt yn arolygu fel mater o drefn o ganlyniad i gŵyn ond lle mae diffyg cynnydd byddant yn gwneud hynny ac yn cyhoeddi hysbysiadau anffurfiol a ffurfiol os tybir bod angen gwneud hynny.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Thomas**

Rwy'n falch bod yr Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol wedi nodi llwydni a lleithder. Rwy'n yn pryderu am sawl atgyfeiriad mewn perthynas ag asbestos. A all amlinellu unrhyw sgyrsiau y mae wedi'u cael gyda mapio a chynnal a chadw diogel mewn achosion o asbestos sy'n peri pryder.

**Ymateb**

Mae Cymoedd i'r Arfordir yr wythnos hon wedi rhoi sicrwydd i mi eu bod yn mynd i adolygu eu stoc tai mewn eiddo lle gallai fod asbestos, gan fod nifer sylweddol o'u heiddo wedi'u hadeiladu cyn 1999 cyn i'r rheoliadau ynghylch asbestos gael eu cyflwyno. Os oes angen gwneud unrhyw waith mewn eiddo lle mae unrhyw asbestos, yna mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud hyn yn ddiogel yn unol â'r rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch a lles preswylwyr. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelod y byddai'n ymchwilio i hyn ymhellach. Mae cyllid hefyd wedi'i roi i, er enghraifft Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ar gyfer TAI GWEIGION, fel y gellir sicrhau bod modd defnyddio'r rhain eto.

**Ail gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Heidi Bennett**

Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai yn y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Rydym yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau fel Llywodraeth Cymru ac rydym ym mlwyddyn un o gynllun tair blynedd i adeiladu rhagor o dai ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gennym gynlluniau i adeiladu 536 o gartrefi o fewn oes y cynllun hwn, ond wrth gwrs, mae'n cymryd peth amser i adeiladu tai newydd. Mae cyllid o £41m ar gyfer y cynllun hwn (gan gynnwys cyllid grant). Bydd yr adeiladau newydd yn cael eu cynllunio'n strategol lle bydd anheddau'n cynnwys tai fforddiadwy llai, h.y. eiddo 1 a 2 ystafell wely yn hytrach na dim ond llety tai mwy a byddant yn cymryd i ystyriaeth o ran dyluniad a strwythur, fynediad i drigolion ag anawsterau, gan gynnwys mynediad lefel isel ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Byddai'r gwaith hwn yn symud ymlaen ar y cyd â chymorth gan ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a thîm Tai CBSPAO, er mwyn bwrw ymlaen â datblygiadau yn unol â'r hyn sydd wedi'i gynllunio.

87. MATERION BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:15